

Adroddiad Ôl Ymgynghori

Ysgol Gynradd Peter Lea – Gorchymyn Traffig Arbrofol

Rhif Project: CO19061

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 4 Gorffennaf 2019 a 27 Gorffennaf 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fo modd.

O'r tua 75 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 6 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 1 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohono isod fel a ganlyn:

- 1 - Cefnogi'r cynnig

Dengys y pryderon a'r sylwadau mewn ysgrifen *italig*, isod ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

Byddai'r GRhTDD mewn grym am 18 mis ar y mwyaf a byddai ond ar waith yn ystod y tymor fel rhan o dreial. Bydd y GRhTDD yn gwahardd cerbydau rhag mynd i mewn na gyrru ar hyd Carter Place rhwng **8:30am a 9:15am** a rhwng **2:45pm a 3:45pm**, o **ddydd Llun i ddydd Gwener**. Diben hyn yw sicrhau diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr y tu allan i Ysgol Gynradd Peter Lea ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Mae'r isod yn sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

“Fel y trafodwyd yn flaenorol – rwy'n meddwl bod cyflwyno'r cynllun hwn yn Carter Place yn syniad gwych a bod ei angen.”

“Fel un o drigolion Carter Place, rwyf wedi cael trafferth â pharcio dros y blynyddoedd yn ystod cyfnodau hebrwng i/o'r ysgol.”

Sylw – Pwy fydd yn cael eu heithrio?


“Yr unig broblem sydd gennyf â'r cynllun yw nad yw fy mhlant yn mynychu ysgol Peter Lea (maen nhw'n mynd i Danescourt) ac mae fy chwart a'm rhieni'n mynd â nhw i'r ysgol i mi drwy'r wythnos gan fy mod yn gweithio.”

Yn dilyn ein sgwrs byddaf yn ceisio gwneud cais am drwyddedau ychwanegol i gwmpasu cerbyd fy rhieni a'm chwaer.”

Bydd y cyfyngiad ar waith 8.30-9.15am a 2.45-3.45pm. Bydd angen gwneud trefniadau i unrhyw un sy'n gyrru cerbyd heb drwydded i gyrraedd y tu allan i'r adegau hyn.

Caiff unrhyw ymwelwyr cyfreithlon sydd eisoes yn y parch pan fo'r amseroedd cyfyngedig yn dechrau ganiatâd i aros wedi'u parcio yn y parth yn ôl yr angen, neu adael y parth, ond ni chaniateir mynediad i'r parth tra bo'r cyfyngiadau ar waith.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.